# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Nick Davies | Adran Etholiadol: | Uplands |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Gyda chydweithwyr ward rwyf wedi parhau i gynnal cymorthfeydd misol ym Marchnad Uplands i sicrhau'r gwelededd mwyaf mewn digwyddiad cymunedol hynod lwyddiannus rwyf wedi mynd ati i'w gefnogi ers ei sefydlu.

Rwyf wedi cyfarfod â phreswylwyr a'r heddlu i fynd i'r afael â phryderon lleol. Rwyf wedi gweithio gyda Chymdeithas Masnachwyr Uplands a'i chefnogi.

Rwyf wedi trefnu deisebau yn erbyn y toreth o lety tai amlfeddiannaeth a chefnogi preswylwyr wrth wrthwynebu ymdrech arall i adeiladu ar Gaeau Ganges. Rwyf wedi cefnogi pryderon preswylwyr am y problemau traffig o gwmpas Ysgol Tŷ Oakleigh.

Fel aelod o'r Pwyllgor Cyswllt Myfyrwyr, rwy'n mynd ati i geisio meithrin cysylltiadau cymunedol da rhwng y myfyrwyr a'r preswylwyr parhaol yn Uplands.

## Adran 2:Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 18 | 67 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe (Partneriaeth Preswylwyr) | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **41** | **/** | **53** | **77** | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynhwysiad Addysg | 2 | / | 6 | 33 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **2** | **/** | **7** | **29** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Rwyf wedi parhau i gadeirio cyfarfodydd y Rhaglen Gweithredu ar Feicio, gan weithio gyda grwpiau megis Sustrans a Wheelwrights i ddatblygu rhwydwaith beicio integredig a hyrwyddo beicio fel ffurf ddiogel, ymarferol a chynaliadwy o deithio. Rwyf wedi cynorthwyo aelod perthnasol y cabinet a chadeirydd pwyllgor cynghori'r Cabinet wrth weithio gyda'r prif

weithredwr bws a chytuno ar bartneriaeth bws i wella gwasanaethau bws a rhwydwaith Abertawe ac i annog mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus.

Rwyf wedi parhau i wasanaethu fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Brynmill.

Rwyf hefyd yn cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Canolfan yr Amgylchedd.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Ynghyd â chydweithwyr y cyngor, wrth ymateb i bryderon hirsefydlog preswylwyr, rwyf wedi llwyddo i lobïo Llywodraeth Cymru i newid y rheolau cynllunio i roi mwy o bwerau i awdurdodau lleol, gan gynnwys Abertawe, i gyfyngu ar ddwysedd tai amlfeddiannaeth.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiwn hyfforddi ganlynol:

07/10/2015 – Cadeiryddion Newydd (Llywodraethwyr)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae Uplands yn lle gwych i fyw, gweithio a chymdeithasu, ond gall bob amser fod yn well. Byddaf yn parhau i weithio gyda phreswylwyr, masnachwyr ac ymwelwyr i'w wneud cystal ag y gall fod. Rwy'n falch fy mod wedi bod yn rhan o'r weinyddiaeth sydd wedi ceisio diogelu swyddi a gwasanaethau'r cyngor yn ystod adegau anodd a heriol iawn.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 21.05.2016 |